

PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 3 - DYDD LLUN, 25 MEDI 2023

**COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 3 A GYNHALIWYD YN HYBRID
IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB
DYDD LLUN, 25 MEDI 2023, AM 16:00**

Presennol

Y Cynghorydd P Davies – Cadeirydd

S J Bletsoe
J E Pratt

M J Evans
G Walter

P W Jenkins
I Williams

W J Kendall
MJ Williams

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

N Clarke, C Davies a/ac MJ Kearns

Swyddogion:

Lucy Beard
Ryan Jones
Carys Lord
Martin Morgans

Swyddog Craffu
Rheolwr Comisiynu Tai Strategol
Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid
Pennaeth Gwasanaeth - Perfformiad a Gwasanaethau
Partneriaeth

47. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Y Cynghorydd Norah Clarke
Y Cynghorydd Mike Kearns

48. **DATGAN BUDDIANNAU**

Datganodd y Cynghorydd Steven Bletsoe fuddiant rhagfarnus yn Eitem 4 ar yr Agenda, Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai (Strategaeth Ddigartrefedd) 2022-2026 fel Rheolwr Gweithrediadau Cymru, ar gyfer y Gymdeithas Landlordiaid Preswyl Cenedlaethol.

49. **CYMERADWYO COFNODION**

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu a Throsolwg Pwnc 3 ar 20 Chwefror 2023 yn gofnod gwir a chywir.

50. **STRATEGAETH RHAGLEN CYMORTH TAI (STRATEGAETH DIGARTREFEDD) 2022-2026**

Cyflwynodd y Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau yr adroddiad, a'i ddiben oedd diweddarau'r Pwyllgor ar y strategaeth Rhaglen Cymorth Tai (RhCT) (Strategaeth Ddigartrefedd) 2022-2026 ddrafft.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau a'r Aelodau gan drafod y canlynol gyda'r gwahoddedigion:

- Tai i gyn-filwyr y Lluoedd Arfog, y gwahanol amgylchiadau y gallai cyn-filwr fod ynddynt ac ymwybyddiaeth yr awdurdodau lleol.
- Yr adroddiad yn dangos yn glir y camau gweithredu'n gryno, gan nodi beth oedd rhai o'r heriau. Aelodau'n ystyried y prif bwyntiau o ran atal cynnar a gwaith amlddisgyblaethol.

PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 3 - DYDD LLUN, 25 MEDI 2023

- Sut y byddai cynnydd y cynllun yn cael ei fesur, yr amcanion unigol a pha ddata fyddai'n cael ei ddefnyddio i fesur yr amcanion hynny.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw gwestiynau pellach i'r Gwahoddedigion, diolchodd i'r Gwahoddedigion am eu presenoldeb a dywedodd y gallent adael y cyfarfod.

PENDERFYNWYD: Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gydag Aelodau Cabinet a Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor yr Argymhellion canlynol:

1. Cryfhau'r Strategaeth o ran cefnogaeth i gyn-filwyr a phersonél y Lluoedd Arfog.
2. Sicrhau'r effeithiolrwydd mwyaf posibl o'r Strategaeth, adolygu'r amcanion blaenoriaeth strategol i sicrhau eu bod yn rhai Penodol, Mesuradwy, Cyraeddadwy, Perthnasol ac Amserol ac yn cael eu nodi yn y Cynllun Gweithredu a bod yr amserlenni'n cael eu dadansoddi ymhellach yn manylu ar y flwyddyn a'r mis y bwriedir cyflawni pob cam gweithredu, fel y gellir mesur cynnydd yn glir.
3. Bod y Strategaeth yn cael ei gwneud yn fwy cyfeillgar i ddefnyddwyr ac mor hawdd i'w llywio â phosibl.

a gofynnodd y Pwyllgor:

Am fap llwybr sy'n nodi'r model ymarfer gwaith eang o'r hyn sy'n digwydd pan fydd rhywun yn cyflwyno'n ddigartref, gan gynnwys y camau, yr amserlenni a'r math o wasanaethau a gynigir a, lle bo'n briodol, yr amserlenni cyfartalog ar gyfer ailgartrefu.

51. DIWEDDARIAD AR Y FLAENRAGLEN WAITH

Trafododd y Pwyllgor y Flaenraglen Waith amlinellol drafft a chroesawodd yr Aelodau bwnc yr adroddiad Cronfa Codi'r Gwastad – Pafiliwn Porthcawl ond roeddent yn teimlo y gallai fod yn fwy effeithiol craffu ar hyn yn gynnar a gofynnwyd a fyddai'r pwnc yn addas ar gyfer sesiwn friffio.

PENDERFYNWYD: Cymeradwyodd y Pwyllgor y Flaenraglen Waith yn Atodiad A, yn amodol ar ychwanegu'r uchod, nododd y Daflen Gweithredu Argymhellion Monitro yn Atodiad B a nododd y byddai'r Flaenraglen Waith, y Daflen Gweithredu Argymhellion Monitro ac unrhyw ddiweddariadau gan y Pwyllgor yn cael eu hadrodd yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu a Throsolwg Pwnc.

52. EITEMAU BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:48